

# Castell Caerdydd

## Gweithdy Straeon Tylwyth Teg

### Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg.

### Disgrifiad

Yn dilyn taith o amgylch y Castell ac ymweliad i weld wal y tylwyth teg yn y Feithrinfa, bydd y plant yn creu eu fersiwn eu hunain o un o'r straeon tylwyth teg, a fydd wedyn yn cael ei recordio ac wedyn anfonir CD o'r fersiwn wedi'i golygu, gydag anterliwtiau cerddorol, i'r ysgol.

Arweinir y gweithdy gan hwylusydd proffesiynol sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

### Taith Dywys o'r Castell

Bydd taith dywys o'r Tŷ yn mynd â'r plant i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych. Mae gan y Feithrinfa wal deils llawn addurniadau o straeon tylwyth teg a llusernau yn darlunio hwiangerddi.

### Hyd

Bydd y gweithdy yn para 60 munud. Bydd y daith dywys yn cymryd tua 50 munud ond gall y rhai â phlant ifanc iawn ddewis opsiwn byrrach (tua 30 munud) sy'n hepgor y rhan â'r grisiau troellog yn un o'r tyrrau.

### Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio meim, mynegiant wynebol a symudiadau i bortreadau gwahanol gymeriadau
- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio mynegiant wynebol i gyfleu emosiynol
- ◆ Dysgu am amlinelliad plot rhai straeon tylwyth teg adnabyddus
- ◆ Dysgu am y prif gymeriadau yn y stori dylwyth teg honno
- ◆ Dysgu sut i ddefnyddio geirfa ddiddorol i ddisgrifio digwyddiadau'r stori dylwyth deg
- ◆ Dysgu sut i newid manylion stori tra'n cadw'r plot yr un fath
- ◆ Dysgu sut i siarad yn glir gan ddefnyddio microffon a sut i ddefnyddio mynegiant priodol
- ◆ Dysgu sut i gymryd tro a gweithio mewn tîm

### Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Sylfaenol/Blynyddoedd Cynnar**
  - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
  - Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
  - Datblygiad Creadigol
  - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
  - Cymraeg/Saesneg - Llafaredd
  - Sgiliau – Y Cwricwlwm Cymreig, TGCh, Cyfathrebu, Meddwl, Addysg Personol a Chymdeithasol
- ◆ **Cyfnod Allweddol 1 a 2 (Lloegr)**
  - Saesneg – Iaith Lafar

Ar gyfer Cymru a Lloegr, gall yr ymweliadau gwmpasu'r rhan fwyaf o gyfnodau o hanes a astudir yn CA2 (Rhufeiniaid, Normaniaid/Oes y Tywysogion, Oes Fictoria a'r 1940au).

### Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol ar gyfer y Tiroedd a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant.
- Sioe ffilm a mynediad i holl ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn bob amser.